## POLISI A GWEITHDREFN DISGYBLU AELODAU UNDEB ABERYSTWYTH

### 1. Diben

1.1. Diben y Polisi a'r Weithdrefn Disgyblu Aelodau yw darparu fframwaith tryloyw ar gyfer rheoli honiadau o gamymddwyn a wneir yn erbyn aelodau Undeb y Myfyrwyr ac ar gyfer sicrhau bod camau disgyblu, lle bo angen, yn cael eu gweithredu'n deg ac yn gyson.

### 2. Egwyddorion

2.1. Disgwylir i aelodau Undeb Aberystwyth fod yn onest ac yn gweithredu yn unol â Chôd Ymddygiad yr aelodau.

2.2. Bydd unrhyw weithredu'n groes i'r safonau'n cael ei drin mewn modd cyson, teg a rhesymol.

2.3. Ein nod bob amser yw annog gwelliannau mewn ymddygiad a helpu i feithrin dealltwriaeth o pam nad yw rhai ymddygiadau'n dderbyniol.

2.4. Rydym yn ymdrechu i fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar bobl yn y ffordd rydym yn rheoli, ymchwilio a datrys cwynion a honiadau am ymddygiad. Mae hyn yn golygu ein bod yn ceisio:

- Dangos empathi, tosturi a dealltwriaeth drwyddi draw;
- Trefnu cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb, defnyddio *Teams* neu alwadau ffôn yn hytrach na dibynnu ar e-bost;
- Osgoi dibynnu ar fiwrocratiaeth;
- Bod yn dryloyw ac yn agored;
- Cyfathrebu mewn ffordd amserol a gonest;
- Ystyried y cyd-destun a'r cefndir diwylliannol;
- Gwneud yn siŵr bod gennych chi berson penodol y gallwch chi gysylltu â nhw i gael cymorth;
- Gwneud atgyfeiriadau lles yn rhagweithiol lle bo'n briodol.

2.5. Lle bo modd, byddwn yn ceisio delio â phryderon, problemau a chwynion mewn ffordd anffurfiol. Efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl, yn dibynnu ar gyd-destun neu ddifrifoldeb yr ymddygiad honedig.

### 3. Rolau a Chyfrifoldebau

3.1. Mae sawl rôl allweddol o fewn y polisi hwn:

- Ymddiriedolwr Goruchwyliol – wedi'i benodi gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Undeb y Myfyrwyr i oruchwylio fframwaith a dull gweithredu'r Côd Ymddygiad, i wneud penderfyniadau ynghylch a yw cwynion / honiadau'n dod o fewn cwmpas y polisi hwn ac i gymeradwyo unrhyw fesurau rhagofalus.

- Y sawl sy'n gwneud y gŵyn (neu Achwynydd) – person neu bersonau sy'n codi cwyn / honiadau / pryder.

- Y sawl y gwneir y gŵyn yn ei erbyn – person neu bersonau y honnir eu bod wedi gweithredu'n groes i'r Côd Ymddygiad / safonau ymddygiad disgwyliedig.

- Swyddog Cwynion – sy'n rheoli cwynion a gwaith ar achosion; mae'n gwneud yr asesiad cychwynnol o risg, yn cynnull paneli asesu risg, yn penodi Swyddogion Ymchwilio ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylai achosion fynd ymlaen i banel disgyblu.

- Swyddog Ymchwilio – sy'n cynnal ymchwiliadau yn unol ag Adran 11 ac yn llunio adroddiad ar yr ymchwiliad yn ogystal ag argymhellion. Gall fod yn aelod o staff Undeb y Myfyrwyr, yn gydweithiwr yn y Brifysgol neu'n berson annibynnol, yn dibynnu ar risg a chymhlethdod yr achos.

- Panel Asesu Risg – panel o dri o bobl a benodir i gynnal asesiad risg ar gyfer achosion newydd ac i wneud penderfyniad ynghylch unrhyw fesurau rhagofalus priodol.

- Panel Disgyblu – panel o dri o bobl a benodir i wneud unrhyw benderfyniad(au) disgyblu a phennu sancsiynau priodol.

## 4. Cwmpas a Gweithrediad

4.1. Mae'r polisi a'r weithdrefn hon yn berthnasol i holl aelodau Undeb Aberystwyth gan gynnwys myfyrwyr ac aelodau cyswllt. Mae hyn yn cynnwys aelodau etholedig o bwyllgorau Undeb Aberystwyth, Cynrychiolwyr Academaidd, arweinwyr grwpiau myfyrwyr, gwirfoddolwyr a/neu'r rhai sy'n dal swydd gynrychioli o fewn Undeb y Myfyrwyr.

4.2. Gall y polisi a'r weithdrefn fod yn berthnasol i unrhyw ymddygiad neu weithred:

- Sy'n digwydd o fewn safleoedd Undeb Aberystwyth;
- Sy'n digwydd wrth ddefnyddio adnoddau neu gyfleusterau Undeb Aberystwyth, neu wrth fynychu digwyddiad / gweithgaredd a drefnwyd gan Undeb y Myfyrwyr;
- Sy'n digwydd tra bo aelod yn cynrychioli, yn gweithredu ar ran neu y gellid ystyried ei fod yn cynrychioli / gweithredu ar ran Undeb Aberystwyth mewn unrhyw swyddogaeth gan gynnwys mewn digwyddiad, wyneb-yn-wyneb, yn ystod taith, ar-lein (e.e. trwy gyfryngau cymdeithasol) neu mewn gohebiaeth.

4.3. Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw'r polisi a'r weithdrefn yn berthnasol i staff Undeb y Myfyrwyr, Swyddogion Llawn-amser nac Ymddiriedolwyr. Mae yna bolisïau a gweithdrefnau ar wahân sy'n berthnasol i'r rolau hyn. Nid yw'r polisi a'r weithdrefn wedi'u bwriadu ychwaith i'w defnyddio i lywodraethu ymddygiad o fewn etholiadau Undeb y Myfyrwyr, lle bydd protocolau ar wahân yn cael eu pennu gan y Swyddog Canlyniadau.

4.4. Os oes unrhyw le am amheuaeth, Ymddiriedolwr Goruchwyliol Undeb y Myfyrwyr fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a yw honiadau o gamymddwyn yn dod o fewn cwmpas y polisi hwn ai peidio.

## 5. Atgyfeiriadau i Brifysgol Aberystwyth

5.1. Lle gwelir bod camymddwyn honedig yn groes i'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan y Brifysgol, gallwn ni gyfeirio'r achos at y Brifysgol i'w ystyried. Bydd hyn yn digwydd yn awtomatig mewn achosion o honiadau sy'n ymwneud â chamymddwyn difrifol gan gynnwys camymddwyn rhywiol, ac y gallai hynny effeithio ar fyfyrwyr fel myfyrwyr h.y. a allai effeithio ar eu haddasrwydd i barhau i fod yn aelod o gymuned y Brifysgol. Fel arfer, y Brifysgol yn hytrach nag Undeb Myfyrwyr fydd yn ymchwilio i'r achosion hyn.

5.2. Bydd achosion a gyfeirir at y Brifysgol yn cael eu hymchwilio o dan Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr y Brifysgol.

5.3. Bydd Undeb y Myfyrwyr yn ymchwilio ac yn rheoli achosion lle mae'r honiadau / pryderon yn ymwneud ag ymddygiad arweinydd grŵp myfyrwyr / gwirfoddolwr / cynrychiolydd yn benodol mewn perthynas â'u rôl. Rydym hefyd yn cadw'r hawl i ymchwilio a rheoli achosion mewn amgylchiadau eithriadol lle:

- Mae cyd-destun yr honiadau a'r digwyddiad yn benodol i Undeb y Myfyrwyr a/neu nid yw o reidrwydd yn dylanwadu'n ehangach ar addasrwydd y sawl a gyhuddwyd i fod yn rhan o gymuned y Brifysgol, er enghraifft lefel isel o gamymddwyn y gellir ei ddatrys yn lleol.
- Nid yw'r sawl y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn yn dod o fewn cwmpas Rheoliadau Disgyblu'r Brifysgol – er enghraifft, aelod cyswllt.
- Nid yw'r achwynydd / dioddefwr yn gallu, neu nid yw'n dymuno, codi eu pryderon â'r Brifysgol.
- Mae'n briodol gwneud hynny, am reswm addas ac arwyddocaol arall.

Rhoddir enghreifftiau yn *Atodlen 2* ynghylch y mathau o achosion y bydd Undeb y Myfyrwyr yn eu rheoli / ymchwilio iddynt neu beidio.

5.4. Pan gyfeirir achosion at y Brifysgol i ymchwilio iddynt a'u rheoli (neu fod yr achwynydd yn gwneud cwyn yn uniongyrchol), ond bod gan Undeb y Myfyrwyr rywfaint o gyfranogiad yn yr achos – er enghraifft oherwydd y cyd-destun neu oherwydd bod y sawl a gyhuddwyd yn gweithredu mewn rôl arweinyddiaeth / gwirfoddolwr / cynrychiolydd UM, yna gall Undeb y Myfyrwyr roi'r mesurau canlynol ar waith:

- Cyfathrebu rheolaidd â'r Brifysgol i sicrhau dull cyson a chydlynol (yn enwedig lle mae angen mesurau rhagofalus).
- Cyswllt wedi'i benodi i'r achwynydd i weithredu fel pwynt cyswllt o fewn Undeb y Myfyrwyr.
- Asesiad o randdeiliaid perthnasol a chynllun ar gyfer cyfathrebu – er enghraifft os yw'r gŵyn / honiadau'n effeithio ar eraill o fewn Undeb y Myfyrwyr.
- Atgyfeiriad rhagweithiol at Wasanaeth Cynghori Undeb y Myfyrwyr, lle gallai fod effaith ar astudio.

5.5. Os cynhelir ymchwiliad yn Undeb y Myfyrwyr, gellir ei ohirio, yn ôl disgresiwn y Swyddog Cwynion, os yw'r Brifysgol yn cynnal ymchwiliad ynghylch yr un mater.

5.6. Os daw ymchwiliad gan y Brifysgol i'r casgliad bod ymddygiad honedig sy'n groes i'r safonau gofynnol wedi digwydd, bydd Undeb y Myfyrwyr yn derbyn hyn fel tystiolaeth bendant bod yr ymddygiad wedi digwydd at ddibenion ei ymchwiliad ei hun.

## 6. Diogelwch a Chyfrinachedd

6.1. Mae lefel briodol o gyfrinachedd yn bwysig i weithrediad proses ddisgyblu effeithiol, a rhaid iddi gydbwyso tryloywder a gofynion cyfiawnder naturiol yn erbyn disgwyliad cyfreithlon o breifatrwydd personol. Er mwyn sicrhau uniondeb y broses, disgwylir i bob parti sy'n ymwneud â gweithdrefnau disgyblu gynnal lefel briodol o gyfrinachedd.

6.2. Rydym yn cydnabod y gallai fod yn angenrheidiol ac felly'n briodol i'r rhai sy'n ymwneud ag achosion disgyblu rannu gwybodaeth gyfrinachol benodol â thrydydd parti, gan gynnwys o bosibl:

- Cynghorwyr / cynrychiolwyr proffesiynol;
- Gwasanaeth Llesiant y Brifysgol;
- Gwasanaeth Cynghori Undeb Aberystwyth at ddiben cael cyngor a chymorth;
- Aelodau'r teulu (ar y sail bod yr aelodau hynny o'r teulu'n cynnal cyfrinachedd);
- Cyrff allanol perthnasol fel yr heddlu, Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA) neu Swyddfa'r Myfyrwyr (OfS).

6.3. Gall Undeb y Myfyrwyr hefyd ddatgelu gwybodaeth:

- I'r rhai sydd angen gwybod er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau yn y gwaith; lle rydym yn ei ystyried er budd iechyd a diogelwch yn y gwaith neu les a myfyrwyr eraill neu er budd y cyhoedd;
- I'r Brifysgol, lle mae'n ofynnol iddi fabwysiadu ymagwedd gydlynol at reoli'r achos;
- Lle mae datgeliad yn ofynnol dan y gyfraith;
- I dystion a/neu unrhyw un sy'n mynychu cyfarfodydd sy'n ymwneud â'r gŵyn;
- I'n cynghorwyr proffesiynol at ddibenion cael cyngor;
- I gyrff allanol perthnasol eraill fel yr heddlu, Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol neu'r Swyddfa Myfyrwyr.

6.4. Ein nod yw hyrwyddo diwylliant lle mae myfyrwyr a staff yn teimlo'n hyderus i godi eu pryderon. Felly, disgwylir fel arfer i unrhyw un sy'n cyflwyno adroddiad ffurfiol ddatgelu pwy ydyn nhw. Rydym yn cadw'r hawl i gychwyn ymchwiliad heb achwynydd ffurfiol; fodd bynnag, ni fydd unrhyw gamau'n cael eu cymryd yn erbyn myfyriwr ynghylch unrhyw fater yr adroddwyd amdano'n ddienw, oni bai ei bod hi'n bosibl gwirio'r mater sydd dan sylw.

6.5. Fel arfer, bydd y broses ymchwilio'n ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n adrodd / achwynydd ddarparu datganiad a/neu fynychu cyfweliad ymchwiliol. Efallai y bydd hefyd gofyn i'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad fynychu unrhyw wrandawiad disgyblu fel tyst. Fel arfer disgwylir i wybodaeth o'r fath gael ei chyflwyno heb ei gwneud yn ddienw. Oni bai bod amgylchiadau eithriadol, dylai'r sawl sy'n adrodd ddisgwyl cael pwy ydyn nhw wedi'i ddatgelu yn ystod y broses ymchwilio.

## 7. Cysylltiad yr Heddlu a'r Llysoedd Troseddol

7.1. Mae'r adran hon yn berthnasol lle gall y camymddwyn honedig hefyd fod yn drosedd o dan gyfraith.

7.2. Os yw honiadau o gamymddwyn wedi cael eu hadrodd i'r heddlu, bydd unrhyw ymchwiliad gan Undeb y Myfyrwyr yn cael ei ohirio tra'n disgwyl canlyniad ymchwiliad yr heddlu.

7.3. Ni all Undeb y Myfyrwyr ond ymchwilio a fu ymddygiad sy'n groes i Gôd Ymddygiad Aelodau Undeb y Myfyrwyr fel y'i nodir. Ni allwn wneud penderfyniad ynghylch euogrwydd troseddol na phenderfynu a yw myfyriwr wedi gweithredu'n groes i safonau ymddygiad y Brifysgol. Felly, mae unrhyw sancsiynau mewn perthynas ag ymchwiliad disgyblu gan Undeb y Myfyrwyr yn gyfyngedig i aelodaeth unigolyn o Undeb y Myfyrwyr, a'i allu i gael mynediad i'w safleoedd (gweler *Atodlen 3*).

7.4. Os yw'n briodol, gellir cynnal gweithdrefnau asesu risg o dan *Adran 10*.

7.5. Gall Undeb y Myfyrwyr roi gwybod i'r Brifysgol a/neu'r heddlu am unrhyw honiad o drosedd yn dilyn asesiad o risg.

7.6. Os bydd yr heddlu'n penderfynu peidio â bwrw ymlaen ag achos neu fod achos troseddol wedi arwain at ddyfarniad 'dieuog', nid yw hyn yn atal Undeb y Myfyrwyr rhag cymryd camau o dan y polisi hwn, gan fod yma faich prawf gwahanol.

7.7. Os yw myfyriwr wedi cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd neu'n derbyn rhybudd gan yr heddlu mewn perthynas ag ymddygiad sy'n dod o fewn cwmpas y diffiniad o gamymddwyn yn *Atodlen 1*, bydd Undeb y Myfyrwyr yn derbyn hyn fel tystiolaeth bendant bod yr ymddygiad wedi digwydd.

## 8. Gwneud Datgeliad / Cwyn

8.1. Gellir cyflwyno honiadau o gamymddwyn wyneb-yn-wyneb, ar-lein trwy ffurflen gwyno Undeb y Myfyrwyr neu trwy ddulliau eraill fel dros y ffôn neu gyfathrebu digidol fel Teams neu e-bost.

8.2. Os gwneir datgeliad ar lafar, bydd yr aelod staff sy'n derbyn y datgeliad yn cymryd nodiadau (naill ai yn ystod y sgwrs neu yn syth ar ôl hynny) i sicrhau bod ganddynt gofnod o wybodaeth bwysig. Bydd nodiadau'n cael eu rhannu a'u gwirio gyda'r sawl sy'n gwneud y gŵyn er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn, ac y gellir cofnodi'r wybodaeth honno wedyn fel rhan o'r achos.

8.3. Pan wneir datgeliad, byddwn yn ceisio deall yr amgylchiadau a'r canlyniad(au) a ddymunir gan y sawl sy'n cyflwyno'r gŵyn, a byddwn hefyd yn archwilio opsiynau ynghylch sut y gellir ymdrin â phryderon, h.y. yn ffurfiol neu'n anffurfiol. Os yw'n amlwg y dylid delio â'r pryderon yn ffurfiol, gellir annog y sawl sy'n adrodd i ddarparu datganiad ysgrifenedig o'u pryderon trwy ffurflen gwynion Undeb y Myfyrwyr. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau lle byddai datgelu fwy nag unwaith yn debygol o achosi trawma eto, byddwn yn gwneud pob ymdrech resymol i gefnogi'r myfyriwr sy'n gwneud y gŵyn i osgoi hyn.

8.4. Os oes pryder ynghylch risg uniongyrchol i gymuned y Brifysgol neu os oes gan Undeb y Myfyrwyr rwymedigaeth ddiogelu i ystyried y risg, gellir defnyddio'r gweithdrefnau asesu risg cyn i'r achwynydd gyflwyno adroddiad ffurfiol (gweler *Adran 10*).

8.5. Ni chymerir unrhyw gamau ffurfiol ynghylch unrhyw fater a ddaeth i'n sylw yn ddienw oni bai ei bod hi'n bosibl gwirio'r mater y cyfeirir ato. Gellir defnyddio gwybodaeth ddienw i nodi tueddiadau a llunio ein darpariaeth atal a chymorth.

8.6. Os gwneir datgeliad i aelod o staff Undeb y Myfyrwyr, ond nad yw'r sawl sy'n adrodd yn dymuno cyflwyno cwyn ffurfiol, bydd y sawl sy’n derbyn y gŵyn yn ystyried yn ofalus a ddylid cyflwyno adroddiad / uwchgyfeirio'r honiad (mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Cwynion). Ein dewis ni bob amser yw cefnogi dymuniadau a dewisiadau dioddefwyr. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau mae gennym ddyletswydd gofal a all olygu y dylem ymchwilio i honiad hyd yn oed os nad dyna yw dewis y dioddefwr – er enghraifft mewn sefyllfaoedd lle gallai’r datgeliad olygu bod risg ddifrifol i eraill.

## 9. Datrysiad Anffurfiol

9.1. Cyn ystyried achos disgyblu ffurfiol, dylid gwneud pob ymdrech i ddatrys y mater yn anffurfiol, lle bo'n briodol. Gallai hyn gynnwys trafod y mater, â'r nod o helpu'r aelod i wneud gwelliannau priodol i'w ymddygiad. Ar y cam hwn, bydd yr aelod yn cael gwybodaeth lawn am y disgwyliadau, pa gamau sydd angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem ymddygiad a phryd y bydd hyn yn cael ei adolygu. Efallai y bydd hyfforddiant ychwanegol yn cael ei argymell hefyd.

9.2. Ni chynigir datrysiad anffurfiol:

- Os nad yw ymddygiad yr aelod wedi gwella yn dilyn trafodaeth anffurfiol neu rybudd ffurfiol blaenorol;
- Os yw’n fwy priodol delio â'r sefyllfa'n ffurfiol, oherwydd difrifoldeb neu risg bosibl y mater dan sylw.

9.3. Weithiau efallai na fydd trafodaeth anffurfiol yn datrys y mater nac yn briodol. Yn yr achos hwn, bydd y gweithdrefnau perthnasol a amlinellir yng ngweddill y polisi hwn yn cael eu gweithredu.

## 10. Gweithdrefnau Asesu Risg a Mesurau Rhagofalus

10.1. Ar ôl derbyn cwyn / honiad, bydd Undeb y Myfyrwyr yn gwneud asesiad risg ar unwaith, a lle bo'n briodol bydd yn cynnal asesiad risg llawn gan gynnwys ystyried a oes angen mesurau rhagofalus.

10.2. Gall mesurau rhagofalus gynnwys:

- Cyhoeddi gorchymyn dim-cyswllt i atal y sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn rhag dod i gysylltiad â'r sawl sy'n adrodd a phobl berthnasol eraill;
- Cyfyngiad dros-dro rhag cael mynediad i rai safleoedd o fewn Undeb y Myfyrwyr;
- Cyfyngiad dros-dro rhag cael mynediad at weithgareddau penodol Undeb y Myfyrwyr;
- Cyfyngiad dros-dro rhag cael mynediad i holl safleoedd a gweithgareddau Undeb y Myfyrwyr;
- Cyflwyno adroddiad i'r Brifysgol, yr heddlu neu asiantaethau diogelu.

Ni fydd unrhyw fesurau rhagofalus yn atal myfyriwr rhag cael mynediad at Wasanaeth Cynghori Undeb y Myfyrwyr;’ serch hynny, mewn achosion lle mae myfyrwyr wedi'u heithrio rhag cael mynediad at safloedd o fewn Undeb y Myfyrwyr, byddai angen iddynt ddefnyddio'r gwasanaeth o bell.

10.3. Nid yw camau rhagofalus yn sancsiwn nac yn gosb. Dim ond lle ystyrir, yn dilyn y broses asesu risg, ei bod yn angenrheidiol i atal niwed, amddiffyn aelod neu aelodau o gymuned y Brifysgol; neu eiddo Undeb Myfyrwyr / y Brifysgol, y dylid eu defnyddio.

10.4. Cynhelir asesiadau risg (gan gynnwys penderfyniadau ynghylch mesurau rhagofalus) gan banel bach a ddewisir o garfan sy'n cynnwys: Tîm Arweinyddiaeth Undeb y Myfyrwyr, y Swyddog Cwynion, Swyddogion Llawn-amser yr UM. Bydd pob aelod o'r panel hwn yn cael hyfforddiant llawn ar gyfer gweithredu'r Côd Ymddygiad, y Polisi Disgyblu a'r fethodoleg ar gyfer Asesu Risg. Fel arfer, bydd paneli asesu risg yn cynnwys 3 o bobl o'r garfan hon, a byddant bob amser yn cynnwys naill ai'r Swyddog Cwynion neu aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth.

10.5. Rydym yn gweithredu ymagwedd at fesurau rhagofalus sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd, ac yn ceisio hyrwyddo amgylchedd a diwylliant lle mae dioddefwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi i godi cwynion a honiadau. Mae hyn yn cael ei gydbwyso â'r angen i gynnig cefnogaeth o ran llesiant i'r rhai y gwnaed cwynion yn eu herbyn, a pharchu eu hawliau.

10.6. Pan fo'r honiadau o gamymddwyn o natur ddifrifol gan gynnwys camymddwyn rhywiol difrifol, fel arfer bydd y sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn cael ei wahardd dros-dro o holl weithgareddau Undeb y Myfyrwyr hyd nes y cynhelir ymchwiliad, oni bai bod achos clir a thystiolaeth na fyddai'r unigolyn a gyhuddwyd yn peri risg i eraill. Fel arfer, byddai hyn yn cael ei gytuno gyda'r Brifysgol.

10.7. Rydym yn cydnabod y gall unrhyw benderfyniadau ynghylch mesurau rhagofalus achosi pryderon, ond rydym yn ceisio lliniaru hyn trwy gynnal cyfathrebu parhaus, ymchwiliadau amserol a darparu cefnogaeth o ran llesiant.

10.8. Bydd unrhyw asesiad risg sy'n arwain at weithredu mesurau rhagofalus yn cael ei gadarnhau gan Ymddiriedolwr Goruchwyliol Undeb y Myfyrwyr.

10.9. Os cymerir camau rhagofalus, bydd cyswllt wedi'i enwi yn Undeb y Myfyrwyr yn cael ei neilltuo i'r sawl y gwnaed y cwyn yn ei erbyn er mwyn cynnal cysylltiad a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr achos.

10.10. Mae pob mesur rhagofalus yn destun adolygiad ar gais y sawl a gyhuddwyd ar ôl pedair wythnos. Ni fydd adolygiad o'r fath yn cynnwys gwrandawiad, ond bydd gan yr aelod hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig.

10.11. Bydd Undeb y Myfyrwyr yn cynnal asesiad risg yn yr achosion canlynol:

- Undeb y Myfyrwyr ei hun sy'n rheoli'r gŵyn a'r ymchwiliad; neu
- Y Brifysgol sy'n rheoli'r gŵyn a'r ymchwiliad, ond lle mae angen asesiad risg ychwanegol oherwydd y cyd-destun neu oherwydd bod y sawl y gwnaed y cwyn yn ei erbyn yn dal swydd arweinyddiaeth / gynrychioli yn Undeb y Myfyrwyr.

**ENGHRAIFFT >>>**

Os gwneir honiadau ynghylch camymddwyn difrifol yn erbyn arweinydd grŵp myfyrwyr, byddai'r mater yn cael ei gyfeirio at y Brifysgol i ymchwilio iddo. Bydd y Brifysgol yn cynnal asesiad risg, a gall (er enghraifft) benderfynu bod angen gorchymyn dim-cyswllt i atal yr ymatebydd rhag dod i gysylltiad uniongyrchol â'r sawl sydd wedi gwneud y gŵyn. Yn y sefyllfa hon, bydd yr unigolyn a gyhuddwyd yn dal i allu dod i'r campws, parhau â'i astudiaethau a defnyddio cyfleusterau'r Brifysgol.

Oherwydd bod y sawl y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn yn arweinydd grŵp myfyrwyr, byddai Undeb y Myfyrwyr hefyd yn cynnal asesiad risg ychwanegol. Efallai y byddwn yn penderfynu, oherwydd bod yr unigolyn dan sylw mewn rôl arweinyddiaeth, bod angen mesurau rhagofalus pellach i amddiffyn myfyrwyr ac atal niwed, felly gallem, er enghraifft, ei eithrio rhag holl weithgareddau Undeb y Myfyrwyr.

10.12. Pan fyddwn yn cyfathrebu â'r sawl a wnaeth y gŵyn a'r rhai y gwnaed cwynion yn eu herbyn, byddwn yn sicrhau eglurder ac yn gwahaniaethu rhwng sefyllfaoedd lle rydym yn gorfodi neu'n gweithredu camau rhagofalus a bennwyd gan y Brifysgol a sefyllfaoedd lle rydym yn cynnal ac yn gweithredu ein proses asesu risg a'n mesurau rhagofalus ein hunain.

## 11. Ymchwiliad

11.1. Bydd unrhyw gamau a gymerir o dan y gweithdrefnau hyn yn cael eu cwblhau cyn gynted â phosibl, ac fel arfer o fewn 30 diwrnod calendr o ddechrau'r ymchwiliad.

11.2. Pan gyfeirir cwyn neu ddatgeliad ffurfiol, sy'n dod o fewn cwmpas y polisi, at Undeb y Myfyrwyr i weithredu arno, penodir Swyddog Ymchwilio i ymchwilio i'r honiad(au).

11.3. Bydd Undeb y Myfyrwyr yn hysbysu'r sawl y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn ynghylch yr honiadau ac yn darparu crynodeb o natur yr honiadau a wnaed.

11.4. Mae gan y Swyddog Ymchwilio'r pŵer i gynnal yr ymchwiliad fel y mae'n ei ystyried yn briodol, gan gynnwys cyfweld â'r sawl a wnaeth y gŵyn a'r unigolyn a gyhuddwyd, unrhyw dystion eraill a chasglu unrhyw dystiolaeth sydd ar gael.

11.5. Gall y Swyddog Ymchwilio ddarparu rhagor o fanylion am yr honiadau i'r sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn, a bydd yn rhoi cyfle iddynt i ymateb i'r honiadau. Gall yr ymateb hwn fod yn ysgrifenedig a/neu gall y Swyddog Ymchwilio gyfarfod â'r sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn.

11.6. Pan fydd y Swyddog Ymchwilio yn fodlon bod digon o dystiolaeth wedi'i chasglu, bydd yn paratoi adroddiad sy'n cynnwys yr holl dystiolaeth sydd ar gael ac yn crynhoi'r ffeithiau a'r camymddwyn posibl o dan Atodlen 1 ac yn rhoi dyfarniad ynghylch a oes achos i'w ateb ai peidio.

11.7. Bydd y Swyddog Ymchwilio yn rhannu ei adroddiad gyda'r Swyddog Cwynion ar gyfer ystyriaeth.

## 12. Ystyriaeth gan y Swyddog Cwynion

12.1. Bydd y Swyddog Cwynion yn adolygu'r Adroddiad ar yr Ymchwiliad a baratowyd gan y Swyddog Ymchwilio a gall wneud y canlynol:

- Gofyn am gynnal ymchwiliad pellach;
- Penderfynu na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach, ac os felly bydd y ddwy ochr yn derbyn llythyr yn eu hysbysu o hyn ac yn tynnu sylw at y gefnogaeth sydd ar gael iddynt;
- Penderfynu y dylid delio â'r mater yn anffurfiol trwy anfon llythyr rhybudd anffurfiol at y sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn;
- Gofyn am gymryd camau anffurfiol eraill gan gynnwys sgwrs anffurfiol, hyfforddiant, canllawiau, cyfryngu a/neu ofyn am ymddiheuriad;

- Penderfynu y dylid delio â'r mater yn ffurfiol.

12.2. Gall y Swyddog Cwynion dderbyn cyngor gan y Prif Weithredwr, cydweithwyr o'r adran Gwasanaethau Myfyrwyr a/neu gynghorwyr cyfreithiol / AD allanol.

## 13. Panel / Gwrandawiad Disgyblu

13.1. Os bydd y Swyddog Cwynion yn penderfynu cyfeirio'r mater at Banel Disgyblu, byddant yn cynnull panel ac yn trefnu gwrandawiad cyn gynted â phosibl.

13.2. Bydd y Panel yn cynnwys tri o bobl nad ydynt wedi cael unrhyw gysylltiad blaenorol â'r achos, a byddant yn cael eu dewis o blith carfan sy'n cynnwys: Tîm Arweinyddiaeth Undeb y Myfyrwyr, a Swyddogion Llawn-amser yr UM. Bydd pob aelod o'r panel hwn yn cael hyfforddiant llawn ar gyfer gweithredu'r Côd Ymddygiad, y Polisi Disgyblu a'r fethodoleg ar gyfer Asesu Risg. Bydd un o'r aelodau'n cael ei benodi'n Gadeirydd y Panel.

13.3. Bydd trefn y gwrandawiad disgyblu, y dystiolaeth i'w hystyried a'r tystion i'w galw yn ôl disgresiwn y Panel. Gall y Panel ofyn cwestiynau i unrhyw un sy'n bresennol.

13.4. Fel arfer, aelod o staff nad yw fel arall yn ymwneud ag unrhyw ran o'r ymchwiliad fydd yn gweithredu fel Clerc i'r Panel Disgyblu. Gall y Swyddog Cwynion ymgymryd â'r rôl hon. Rôl y clerc yw cofnodi'r trafodion a chynghori'r Panel. Fel arfer, y Swyddog Ymchwilio fydd yn cyflwyno'r achos ar ran Undeb y Myfyrwyr.

13.5. Bydd y sawl y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn yn cael ei wahodd i fynychu'r gwrandawiad. Gellir cynnal y gwrandawiad trwy fideo-gynadledda yn hytrach nag wyneb-yn-wyneb. Gellir gwahodd y sawl sy'n gwneud y gŵyn i fynychu'r gwrandawiad fel tyst a gofyn iddynt roi tystiolaeth; nid yw'n cymryd rhan yn y trafodaethau. Ni fydd y sawl a wnaeth y gŵyn yn mynychu'r holl wrandawiad a gall roi tystiolaeth trwy gyswllt fideo os yw'n briodol. Os yw dau neu fwy o unigolion wedi'u cyhuddo o'r un camymddygiad, gall y Panel yn ôl ei ddisgresiwn ddelio â'u hachosion gyda'i gilydd.

13.6. Gall y sawl a wnaeth y gŵyn a'r rhai a gyhuddwyd ddod â rhywun i'w cefnogi neu i'w cynrychioli gyda nhw i'r gwrandawiad. Fel arfer disgwylir i'r ddwy ochr ateb unrhyw gwestiynau a ofynnir iddynt, oni bai bod ganddynt reswm da dros beidio â gwneud hynny.

13.7. Bydd y Panel yn dibynnu ar dystiolaeth a gyflwynir yn y gwrandawiad yn unig, naill ai ar lafar neu yn nogfennaeth y gwrandawiad. Bydd y rhai a gyhuddwyd yn derbyn copi o ddogfennaeth y gwrandawiad, ond ni fydd y sawl a wnaeth y gŵyn yn ei derbyn.

13.8. Gall y Panel osod cyfyngiadau amser ar gyflwyniadau. Bydd ganddyn nhw'r gallu i ohirio gwrandawiad i ddyddiad arall, lle bo'n briodol.

13.9. Gall y Panel ganfod aelod yn euog o gamymddwyn os yw, ar sail tystiolaeth, yn fodlon ar bwysau tebygolrwydd, ynghylch euogrwydd yr aelod. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Panel fod yn fodlon bod yr aelod yn fwy tebygol o fod yn euog nag yw o beidio bod yn euog. Unwaith y bydd canfyddiad o euogrwydd wedi'i sefydlu, gall y Panel osod unrhyw un o'r cosbau a restrir yn Atodlen 3.

13.10. Os na all aelodau'r Panel gytuno, penderfyniad y Panel fydd penderfyniad mwyafrif ei aelodau.

13.11. Mae pob achos disgyblu o dan yr adran hon, ynghyd â dogfennau sy'n ymwneud â'r achos, yn gyfrinachol.

13.12. Bydd y sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn derbyn llythyr canlyniad yn manylu ar y penderfyniad a'r sancsiwn a osodwyd fel arfer o fewn 14 diwrnod calendr o'r gwrandawiad. Mae ganddynt hawl i apelio, fel y nodir yn *Adran 15*.

13.13. Bydd y sawl sydd wedi cyflwyno'r gŵyn yn derbyn llythyr yn nodi bod Panel Disgyblu wedi ymdrin â'r mater. Byddant hefyd yn cael gwybod a ganfuwyd bod y sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn yn euog neu'n ddieuog. Fel arfer, bydd y sawl a wnaeth y gŵyn yn cael ei hysbysu ynghylch sancsiynau a osodwyd ar yr unigolyn a gyhuddwyd lle mae'r gosb yn cael effaith uniongyrchol ar yr achwynydd, megis gorchymyn dim-cyswllt neu lythyr ymddiheuriad. Bydd datgelu gwybodaeth bellach am gosbau yn cael ei ystyried ar sail pob achos yn unigol.

## 14. Sancsiynau / Cosbau

14.1. Mae'r cosbau posibl am gamymddwyn wedi'u nodi yn Atodlen 3.

14.2. Wrth bennu sancsiynau, rhoddir ystyriaeth i ddifrifoldeb ac amgylchiadau'r camymddygiad ac unrhyw amgylchiadau lliniarol a godwyd gan y sawl a gyhuddwyd neu ei gynrychiolydd.

14.3. Os ceir yn euog o gamymddwyn, anfonir manylion y camymddygiad a'r sancsiynau a osodwyd at yr unigolyn y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn.

14.4. Bydd Undeb y Myfyrwyr yn cadw cofnod o gamymddygiad myfyrwyr a'r sancsiynau a osodir, a bydd yn rhannu'r wybodaeth hon â'r Brifysgol lle bo'n briodol.

## 15. Apeliadau

15.1. Caiff y sawl a gyhuddwyd apelio yn erbyn canfyddiad o euogrwydd neu yn erbyn sancsiwn a osodwyd yn dilyn canfyddiad o euogrwydd a osodwyd o dan adran 13 a 14 o'r Rheoliadau hyn. Rhaid gwneud yr apêl i Undeb y Myfyrwyr o fewn 7 diwrnod calendr o gyhoeddi'r llythyr canlyniad. Dylid gwneud apeliadau trwy e-bost i undebcomplaints@aber.ac.uk. Rhaid i'r unigolyn dan sylw nodi'n ysgrifenedig y sail ar gyfer yr apêl.

15.2. Bydd yr apêl yn cael ei chlywed gan Banel sy'n cynnwys tri o bobl nad ydynt wedi cael unrhyw gysylltiad blaenorol â'r achos, a byddant yn cael eu dewis o blith carfan sy'n cynnwys: Tîm Arweinyddiaeth Undeb y Myfyrwyr, Ymddiriedolwyr a Swyddogion Llawn-amser yr UM. Bydd pob aelod o'r Panel Apêl yn cael hyfforddiant llawn ar gyfer gweithredu'r Côd Ymddygiad, y Polisi Disgyblu a'r fethodoleg ar gyfer Asesu Risg.

15.3. Y seiliau y gellir eu defnyddio ar gyfer apelio yw:

- Nad oedd y penderfyniad yn rhesymol;
- Nad oedd y weithdrefn wedi'i dilyn yn gywir wrth wneud y penderfyniad;

- Bod tystiolaeth newydd wedi dod i'r amlwg nad oedd ar gael i'r sawl a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol, a allai fod wedi effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw.

Nid oes hawl i ail-wrandawiad o'r achos. Gall y sawl y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn gyflwyno'r apêl wyneb-yn-wyneb neu'n ysgrifenedig, a gall gael ei gynrychioli gan gynghorydd, ffrind neu gynrychiolydd arall.

15.4. Gall y Panel sy'n ystyried yr apêl wneud y canlynol:

- Gwrthod yr apêl a chadarnhau'r gosb wreiddiol;
- Cadarnhau'r apêl a dirymu'r penderfyniad a'r gosb wreiddiol;
- Cadarnhau'r apêl yn rhannol a chadarnhau'r canfyddiad o euogrwydd ond diwygio'r gosb, gan osod cosb lai neu fwy difrifol.

## Atodlen 1: Enghreifftiau o Gamymddwyn

a) Unrhyw ymddygiad sy'n torri Côd Ymddygiad yr Aelodau;
b) Unrhyw ymddygiad sy'n drosedd dan y gyfraith;
c) Unrhyw ymddygiad sy'n gyfystyr â chamymddwyn rhywiol;
d) Tarfu ar, neu ymyrryd yn amhriodol â, gweithgareddau addysgol, gweinyddol, chwaraeon, cymdeithasol neu weithgareddau eraill Undeb y Myfyrwyr neu'r Brifysgol;
e) Rhwystro, neu ymyrryd yn amhriodol â, swyddogaethau, dyletswyddau neu weithgareddau unrhyw fyfyriwr neu aelod o staff;
f) Ymddygiad neu iaith dreisgar, anweddus, anhrefnus, bygythiol, brawychus neu sarhaus, boed hynny ar lafar neu'n ysgrifenedig, gan gynnwys ymddygiad ar-lein;
g) Bwlio, aflonyddu neu ymddygiad annerbyniol yn erbyn unrhyw fyfyriwr neu aelod o staff Undeb y Myfyrwyr neu'r Brifysgol, neu unrhyw ymwelydd ag Undeb y Myfyrwyr neu'r Brifysgol, gan gynnwys ar sail rhywedd, hil, crefydd neu gred, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, oedran neu sail arall, gan gynnwys bwlio ac aflonyddu ar-lein;
h) Twyll neu anonestrwydd mewn perthynas ag Undeb y Myfyrwyr, y Brifysgol neu ei staff, myfyrwyr neu ymwelwyr;
i) Lladrad neu gamddefnyddio eiddo Undeb y Myfyrwyr, neu eiddo staff, myfyrwyr neu ymwelwyr, gan gynnwys camddefnyddio cyfrifiaduron;
j) Camddefnyddio neu ddefnydd heb awdurdod o safle Undeb y Myfyrwyr / y Brifysgol;
k) Difrod i eiddo Undeb y Myfyrwyr / y Brifysgol, neu eiddo staff, myfyrwyr neu ymwelwyr, a achosir yn fwriadol neu trwy esgeulustod;
l) Gweithred sy'n debygol o achosi anaf neu beryglu diogelwch eraill ar safle Undeb y Myfyrwyr, mewn digwyddiadau UM neu yn ystod unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig ag Undeb y Myfyrwyr;
m) Methu â pharchu hawliau eraill i ryddid o ran cred a rhyddid i lefaru;
n) Methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd rhesymol ynghylch disgyblaeth, a gyhoeddwyd gan Undeb y Myfyrwyr neu'r Brifysgol, gan gynnwys methu â chydymffurfio â mesurau rhagofalus.

## Atodlen 2: Enghreifftiau o achosion a fyddai / a allai / na fyddent yn dod o fewn cwmpas y Polisi

Fel y nodir yn Adran 5, y Brifysgol sydd â'r prif gyfrifoldeb dros reoli ac ymchwilio i achosion ymddygiad sy'n effeithio ar fyfyrwyr fel myfyrwyr. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys honiadau a allai effeithio ar addasrwydd myfyrwyr i barhau i fod yn aelod o gymuned y Brifysgol.

Dyma enghreifftiau o achosion a **fyddai'n** cael eu hymchwilio a'u rheoli gan Undeb y Myfyrwyr:

- Honiadau o gamymddwyn difrifol sy'n ymwneud â pherson/personau sydd y tu allan i Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr y Brifysgol e.e. aelodau cyswllt.

- Honiadau o gamymddwyn sy'n ymwneud yn benodol â gweithredoedd / ymddygiad arweinydd grŵp myfyrwyr / gwirfoddolwr / cynrychiolydd – ond na fyddai'r Brifysgol yn ymchwilio iddynt – er enghraifft, honiadau a allai effeithio'n benodol ar addasrwydd rhywun i gyflawni rôl o fewn Undeb y Myfyrwyr.

- Honiadau ynghylch rhywbeth a ddigwyddodd yn ystod digwyddiad Undeb y Myfyrwyr, gweithgaredd sy'n torri Côd Ymddygiad Undeb y Myfyrwyr ond nad yw'r Brifysgol yn ei ystyried yn groes i'w Rheoliadau Disgyblu Myfyrwyr – gallai enghreifftiau posibl gynnwys:
    - Mae myfyriwr neu arweinydd myfyrwyr yn dwyn anfri ar Undeb y Myfyrwyr;
    - Lladrad o eiddo Undeb y Myfyrwyr;
    - Methu â chydymffurfio â mesurau rhagofalus a gyhoeddwyd gan Undeb y Myfyrwyr

Dyma enghreifftiau o achosion a **allai** gael eu hymchwilio a'u rheoli gan Undeb y Myfyrwyr:

- Datgeliadau ynghylch camymddwyn gan fyfyriwr lle nad yw'r sawl sy'n gwneud y gŵyn yn dymuno defnyddio gweithdrefnau'r Brifysgol. Gall hyn, er enghraifft, fod yn berthnasol os mai'r unig sancsiwn y mae'r achwynydd yn ei geisio yw gwahardd yr unigolyn y mae'n gwneud cwyn amdano o weithgaredd / digwyddiad penodol Undeb y Myfyrwyr. Fel arfer, byddai Undeb y Myfyrwyr yn annog myfyrwyr i godi cwynion gyda'r Brifysgol (lle gallai ymddygiad fod wedi torri safonau'r Brifysgol) ond gallant ystyried y sefyllfaoedd hyn ar sail achosion unigol.

Dyma enghreifftiau o achosion **na fyddai'n** cael eu hymchwilio a'u rheoli gan Undeb y Myfyrwyr:

- Honiadau o gamymddwyn a chamymddwyn difrifol sy'n torri Rheoliadau Disgyblu Myfyrwyr y Brifysgol ac a fydd yn cael eu hymchwilio a'u rheoli gan y Brifysgol.

- Cwynion am y Brifysgol neu staff y Brifysgol.

- Honiadau o gamymddwyn neu drais rhywiol lle mae'r sawl a gyhuddir yn fyfyriwr.

Mae'n bosibl y bydd yr UM yn cynnal asesiad risg ychwanegol o hyd lle bo'n briodol, oherwydd y cyd-destun neu oherwydd bod y sawl a gyhuddwyd yn dal swydd arweinyddiaeth / gynrychioli yn Undeb y Myfyrwyr. (Gweler adran 10.11).

## Atodlen 3: Sancsiynau Posibl am Dorri'r Côd Ymddygiad

Sancsiynau posibl am dorri Rheoliadau Disgyblu Myfyrwyr. Gall myfyriwr a geir yn euog o gamymddwyn gael un neu fwy o'r cosbau canlynol wedi’u dyfarnu iddo:

- Rhybudd ysgrifenedig ffurfiol;
- Rhyddhad diamod, sy'n golygu, er y gall y myfyriwr fod yn euog yn dechnegol o'r camymddygiad honedig, na ddylid gosod unrhyw fai ar eu gweithredoedd;
- Rhybudd, sy'n golygu na ddyfernir unrhyw gosb bellach, ond os ceir y myfyriwr yn euog o gamymddwyn unwaith yn rhagor yn y deuddeg mis canlynol, neu ryw gyfnod penodol arall, yna byddant yn wynebu cosb am y ddwy drosedd;
- Gofyniad i ysgrifennu llythyr ymddiheuriad at berson neu bersonau penodol;
- Gofyniad i fynychu cwrs neu raglen benodol a thalu'r gost resymol a bennir ar yr adeg berthnasol gan Undeb y Myfyrwyr;
- Gorchymyn dim-cyswllt - gofyniad i beidio â chael unrhyw gyswllt, neu gyfyngiad ar gyswllt, â pherson neu bersonau penodol;
- Gwaharddiad o rai o weithgareddau Undeb y Myfyrwyr am gyfnod penodol o amser;
- Gwaharddiad o holl weithgareddau aelodaeth Undeb y Myfyrwyr am gyfnod penodol o amser;
- Gwaharddiad parhaol o weithgareddau penodol Undeb y Myfyrwyr;
- Diddymu aelodaeth - gwaharddiad parhaol o holl weithgareddau Undeb y Myfyrwyr (ac eithrio Cyngor Academaidd);
- Unrhyw gosb resymol arall y mae Panel Disgyblu yn ei hystyried yn briodol.

## Atodlen 4: Canllawiau ar gyfer Penderfyniadau ynghylch Mesurau Rhagofalus

| Isel | Cymedrol | Uchel | Brys |
|---|---|---|---|
| Dim tystiolaeth o gynllunio ymlaen llaw, targedu'r dioddefwr nac o ymosodiad heb ei ysgogi.*<br><br>Dim risg gyfredol (gall fod yn ddigwyddiad hanesyddol) ac nid yw'r digwyddiad hwn yn golygu risg o niwed.<br><br>Nid oes gan y myfyriwr a gyhuddwyd unrhyw honiadau yn ei erbyn o dan Reoliadau Disgyblu’r UM / Prifysgol.<br><br>Ni wnaed unrhyw fygythiadau yn erbyn y myfyriwr a/neu eiddo personol y myfyriwr ar safle’r Brifysgol.<br><br>Nid yw amgylchiadau'r digwyddiad dan sylw yn awgrymu y gallai'r myfyriwr gyflawni troseddau eraill os na chaiff ei gyfyngu rhag cael mynediad at weithgareddau / gwasanaethau / safleoedd.<br><br>Mae'r myfyriwr yn gwneud cynnydd academaidd. Mae gan y myfyriwr rwydwaith cymorth. Dim pryderon wedi'u codi gan unrhyw drydydd parti. Mae'r broblem yn ddigwyddiad untro ac mae'r ffactorau straen eraill yn isel. Dim sôn am hunan-niweidio yn y gorffennol nac ar hyn o bryd. Mae gan y myfyriwr ddealltwriaeth o'r materion dan sylw. Mae'r myfyriwr yn cymryd camau i gael mynediad at gefnogaeth / lleihau risgiau. | Nid yw'r digwyddiad hwn yn cynnwys ymosodiad wedi'i gynllunio ymlaen llaw nac ymosodiad heb ei ysgogi, ond mae tystiolaeth bod y dioddefwr wedi'i dargedu.*<br><br>Nid yw'r digwyddiad hwn yn cynnwys defnyddio arf.<br><br>Mae gan y sawl a gyhuddwyd honiad heb ei brofi neu honiad profedig bach yn ei erbyn nad yw'n cynnwys trais, bygythiadau o drais nac ymddygiad bygythiol.<br><br>Ni wnaed unrhyw fygythiadau uniongyrchol yn erbyn y myfyriwr, ond mae'r digwyddiad o'r fath a allai fel arfer ennyn teimladau cryf.<br><br>Mae amgylchiadau'r digwyddiad dan sylw yn awgrymu y gallai'r myfyriwr a gyhuddwyd gyflawni troseddau sy'n cynnwys trais, bygythiadau o drais neu ymddygiad bygythiol, aflonyddu, bwlio neu ddifrod i eiddo, os na chaiff ei gyfyngu rhag cael mynediad at weithgareddau, gwasanaethau a/neu safleoedd.<br><br>Mae'r myfyriwr yn ymwneud â’i astudiaethau academaidd. Mae gan y myfyriwr rywfaint o rwydwaith cymorth. Dim pryderon wedi'u codi gan unrhyw drydydd parti. Mae'r broblem yn ddigwyddiad untro ac mae'r ffactorau straen eraill yn gymedrol. Dim hunan-niweidio nawr nac yn y gorffennol ac mae yna | Mae'r digwyddiad hwn yn cynnwys ymosodiad wedi'i gynllunio ymlaen llaw neu heb ei ysgogi, gyda'r dioddefwr yn cael ei dargedu neu beidio.*<br><br>Mae'r digwyddiad hwn yn cynnwys niwed corfforol a allai gynnwys y defnydd o arf.<br><br>Mae gan y myfyriwr a gyhuddwyd honiad difrifol yn ei erbyn neu batrwm ymddygiad o honiadau bach sy'n cynnwys trais, trais rhywiol, bygythiadau o drais neu ymddygiad bygythiol.<br><br>Mae bygythiadau uniongyrchol wedi'u gwneud yn erbyn y myfyriwr neu mae sibrydion am ymosodiadau ar sail dial.<br><br>Mae amgylchiadau'r digwyddiad sydd dan sylw yn awgrymu y gallai'r myfyriwr a gyhuddwyd gyflawni troseddau sy'n cynnwys trais, bygythiadau o drais neu ymddygiad bygythiol, aflonyddu, bwlio neu ddifrod i eiddo, os na chaiff ei gyfyngu rhag cael mynediad at weithgareddau, gwasanaethau a/neu safleoedd.<br><br>Mae'r myfyriwr yn cael trafferth yn academaidd / yn gymdeithasol, ychydig iawn o rwydweithiau cymorth sydd ganddo neu nid yw'r perthnasoedd hynny’n gefnogol. Mae sawl trydydd parti wedi codi pryderon. Mae materion dan sylw yn gymhleth. Weithiau mae gan y | Mae'r digwyddiad hwn yn cynnwys ymosodiad wedi'i gynllunio ymlaen llaw neu heb ei ysgogi gyda'r dioddefwr yn cael ei dargedu.*<br><br>Mae'r digwyddiad hwn yn ymwneud ag ymddygiad bygythiol neu niwed corfforol sylweddol a allai gynnwys defnyddio arf.<br><br>Mae yna batrwm o ddigwyddiadau sy'n gwaethygu’n gysylltiedig â’r sawl y gwnaed cwyn yn ei erbyn a all fod yn agos at ei gilydd sy'n cynnwys trais, trais rhywiol, bygythiadau o drais neu ymddygiad bygythiol.<br><br>Mae yna ymosodiadau dial wedi bod.<br><br>Mae amgylchiadau'r digwyddiad sydd dan sylw yn awgrymu y bydd y myfyriwr yn cyflawni troseddau eraill os na chaiff ei gyfyngu rhag cael mynediad at weithgareddau, gwasanaethau a/neu safleoedd sy'n peryglu diogelwch cymuned y Brifysgol yn sylweddol.<br><br>Mae'r myfyriwr wedi ymddieithrio'n academaidd neu'n cael trafferthion. Mae'r myfyriwr wedi'i ynysu neu nid yw perthnasoedd yn gefnogol. Mae sawl trydydd parti wedi codi pryderon. Mae’r materion dan sylw yn gymhleth ar draws sawl maes. Mae yna hanes o hunan-niweidio. Nid oes gan y myfyriwr ddealltwriaeth o'r materion dan sylw. Mae'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae ganddyn nhw hunan-ddealltwriaeth ac maen nhw'n bwriadu cael mynediad at gefnogaeth. | myfyriwr syniadau hunanladdol. Mae'r myfyriwr yn amharod i ymgysylltu â chymorth a phrosesau'r brifysgol. | myfyriwr yn gwrthod ymgysylltu â chymorth a phrosesau'r UM / prifysgol. |

*Nid yw'n berthnasol mewn achosion o drais rhywiol.